

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adroddiad Blynyddol ar Fân-ddaliadau Awdurdodau Lleol yng Nghymru

2021-2022





# Adroddiad Blynyddol ar Fân-Ddaliadau yng Nghymru 1 Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022

## Cyflwyniad

Mae dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru o dan adran 59(2) o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970 i gyhoeddi adroddiad ar eu gweithgareddau, a gweithgareddau awdurdodau lleol, mewn perthynas â mân-ddaliadau yng Nghymru. Trosglwyddwyd y ddyletswydd hon yn wreiddiol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau 1999 (1999/672) ac mae'n arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth ystadegol am nifer y mân-ddaliadau sy'n eiddo i awdurdodau mân-ddaliadau a'u harwynebedd, am denantiaethau ac am sefyllfa ariannol awdurdodau mân-ddaliadau. Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2021 hyd 31 Mawrth 2022.

Caiff mân-ddaliadau statudol, neu ffermydd sir, eu gweinyddu dan Ran III o Ddeddf Amaethyddiaeth 1970. Dan y ddeddfwriaeth hon, mae'n ofynnol i awdurdodau mân- ddaliadau sicrhau mai eu nod cyffredinol yw darparu cyfleoedd i bobl sydd â digon o brofiad i fod yn ffermwyr ar eu cyfrif eu hunain. Mae'n rhaid i'r mân-ddaliadau allu cynnig gwaith amser llawn ar gyfer hyd at ddau o bobl, gan gynnwys y meddiannydd.

Hoffem ddiolch i'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru sydd wedi darparu'r wybodaeth ystadegol sy'n cael ei defnyddio yn yr adroddiad.

Llywodraeth Cymru
Yr Is-adran Amaeth – Datblygu Cynaliadwy
Llawr Cyntaf
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

© Hawlfraint y Goron 2023, Llywodraeth Cymru, WG47667, ISBN digidol 978-1-83504-324-0
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

# Man-Ddaliadau a Ddarparwyd gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru

## Arwynebedd

Ar 31 Mawrth 2022, roedd awdurdodau yng Nghymru yn berchen ar ychydig mwy na **15,555ha** o dir oedd yn fân-ddaliadau. O hwnnw, roedd tua **12,947ha** yn cael eu gosod fel mân-ddaliadau gyda thŷ a/neu adeiladau.

Mae data o Arolwg Amaethyddol Cymru ar gyfer Mis Mehefin 2021 yn rhoi cyfanswm arwynebedd ffermydd yng Nghymru, ynghyd â thir comin, i fod yn **1.9** miliwn hectar. Felly, mae Tyddynnod Awdurdodau Lleol yn cyfrif am tua **1%** o'r tir.

Mae Tabl 1 yn dangos y sefyllfa ar gyfer awdurdodau unigol.

## Daliadau

Ar 31 Mawrth 2022, roedd awdurdodau lleol yn berchen ar **969** o fân-ddaliadau. O'r rheini, roedd **606 (62%)** yn llai nag 20 hectar o faint a **228 (24%)** rhwng 20 a 40 hectar o faint. Roedd **135 (14%)** o fân-ddaliadau'n fwy na 40 o hectarau.

Mae Tabl 3 yn dangos nifer y daliadau a ddarparwyd gan awdurdodau unigol a dosbarthiad y daliadau yn ôl maint.

## Tenantiaid

Roedd **884** o denantiaid ar fân-ddaliadau awdurdodau lleol ar 31 Mawrth 2022, gyda rhai yn denantiaid nifer o ffermydd. O'r **969** o denantiaethau: roedd **473** yn denantiaethau busnes fferm, **191** yn denantiaethau Deddf Daliadau Amaethyddol a **305** yn denantiaethau eraill. Yn ystod 2021-2022, rhoddwyd **226** o denantiaethau newydd, **15** i newydd-ddyfodiaid, **211** i denantiaid presennol: daeth **27** o denantiaethau i ben.

Ceir ffigurau manwl yn Nhablau 4 a 5.

## Sefyllfa Ariannol Awdurdodau

Dangosodd cyfanswm cyfrif refeniw awdurdodau mân-ddaliadau yng Nghymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 incwm o **£4,290,363.96** o'i gymharu â chyfanswm gwariant o **£1,585,140.18** gan roi gwarged o **£2,705,223.78**.

Mae Tabl 6 yn crynhoi cyfrifon refeniw cyfun yr awdurdodau ar gyfer y flwyddyn.

# Gwybodaeth Ystadegol am Fân-ddaliadau a ddarparwyd gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru

### Tabl 1: Arwynebedd mân-ddaliadau yr oedd awdurdodau mân-ddaliadau'n berchen arnynt ar 31 Mawrth 2022

| Awdurdod Unedol | Tir ar osod fel mân-ddaliad (hectar) | Tir a ddelir ond nid fel mân-ddaliad (hectar) | Cyfanswm tir mân-ddaliadau (hectar) | Rhent o dir ar osod fel mân- ddaliad (£) | Rhent o gyfanswm tir mân-ddaliadau (£) | Cyfanswm Rhent (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Abertawe | 0.00 | 44.31 | **44.31** | £0.00 | £35,272.00 | **£35,272.00** |
| Blaenau Gwent | 0.00 | 183.59 | **183.59** | £0.00 | £16,727.00 | **£16,727.00** |
| Bro Morgannwg | 37.30 | 18.89 | **56.19** | £7,600.00 | £4,680.00 | **£12,280.00** |
| Caerdydd | 15.54 | 0.00 | **15.54** | £11,830.00 | £0.00 | **£11,830.00** |
| Caerffili | 39.00 | 111.00 | **150.00** | £3,000.00 | £15,179.00 | **£18,179.00** |
| Casnewydd | 78.36 | 103.98 | **182.34** | £21,630.00 | £24,765.00 | **£46,395.00** |
| Castell-nedd Port Talbot | 0.00 | 186.28 | **186.28** | £0.00 | £29,444.00 | **£29,444.00** |
| Ceredigion | 267.00 | 21.00 | **288.00** | £58,449.00 | £3,767.00 | **£62,216.00** |
| Conwy | 271.16 | 0.00 | **271.16** | £67,431.00 | £0.00 | **£67,431.00** |
| Gwynedd | 1,169.86 | 57.23 | **1,227.09** | £237,341.00 | £7,500.00 | **£244,841.00** |
| Merthyr Tudful | 0.00 | 28.66 | **28.66** | £0.00 | £5,543.00 | **£5,543.00** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0.00 | 39.87 | **39.87** | £0.00 | £500.00 | **£500.00** |
| Powys | 3,997.72 | 247.25 | **4,244.97** | £1,150,854.00 | £66,178.00 | **£1,217,032.00** |
| Rhondda Cynon Taf | 0.38 | 0.00 | **0.38** | £4,000.00 | £0.00 | **£4,000.00** |
| Sir Benfro | 1,507.00 | 564.00 | **2,071.00** | £460,518.50 | £135,200.09 | **£595,718.59** |
| Sir Ddinbych | 728.66 | 85.12 | **813.78** | £147,271.78 | £35,403.29 | **£182,675.07** |
| Sir Fynwy | 867.14 | 173.86 | **1,041.00** | £203,486.00 | £21,435.22 | **£224,921.22** |
| Sir Gaerfyrddin | 1,016.00 | 343.00 | **1,359.00** | £242,180.00 | £56,145.00 | **£298,325.00** |
| Sir y Fflint | 478.19 | 170.37 | **648.56** | £97,859.07 | £68,774.34 | **£166,633.41** |
| Tor-faen | 0.00 | 56.70 | **56.70** | £0.00 | £12,726.00 | **£12,726.00** |
| Wrecsam | 226.61 | 84.05 | **310.66** | £41,624.00 | £810.00 | **£42,434.00** |
| Ynys Môn | 2,248.07 | 88.61 | **2,336.68** | £544,510.00 | £21,705.00 | **£566,215.00** |
| **CYFANSWM CYMRU** | **12,947.99** | **2,607.77** | **15,555.76** | **£3,299,584.35** | **£561,753.94** | **£3,861,338.29** |

**Tabl 2: Tir a gaffaelwyd neu a waredwyd gan awdurdodau tyddynnod ar 31 Mawrth 2022**

| Awdurdod Unedol | Tir wedi'i gaffael | | | | Tir wedi'i waredu | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Newydd ei gaffael (wedi'i brynu neu ei feddiannu etc) Hectar | Wedi'i brynu ond wedi bod ar lês cyn hynny (hectar) | Cyfanswm (hectar) | Pris (£) | Wedi werthu, ei feddiannu, ei gyfnewid etc (hectar) | Tir ar lês wedi'i ildio (hectar) | Cyfanswm (hectar) | Derbyniadau (£) |
| Caerdydd | 0.00 | 0.00 | **0.00** | £0.00 | 0.00 | 3.00 | **3.00** | **£0.00** |
| Sir Ddinbych | 0.00 | 0.00 | **0.00** | £0.00 | 25.67 | 0.00 | **25.67** | **£476,750.00** |
| Ynys Môn | 0.00 | 0.00 | **0.00** | £0.00 | 3.13 | 0.00 | **3.13** | **£405,000.00** |
| Sir Fynwy | 0.00 | 0.00 | **0.00** | £0.00 | 0.04 | 0.00 | **0.04** | **£33,170.00** |
| Casnewydd | 0.00 | 0.00 | **0.00** | £0.00 | 1.00 | 0.00 | **1.00** | **£415,000.00** |
| Powys | 0.00 | 0.00 | **0.00** | £0.00 | 1.92 | 0.00 | **1.92** | **£417,100.00** |
| **CYFANSWM CYMRU** | **0.00** | **0.00** | **0.00** | £0.00 | **31.76** | **3.00** | **34.76** | **£1,747,020.00** |

Ni fu gweithgarwch ar dir yr awdurdodau canlynol yn y flwyddyn:

Abertawe
Blaenau Gwent
Bro Morgannwg
Caerffili
Castell-nedd Port Talbot
Ceredigion
Conwy
Gwynedd
Merthyr Tudful
Pen-y-bont ar Ogwr
Rhondda Cynon Taf
Sir Benfro
Sir y Fflint
Sir Gaerfyrddin
Tor-faen
Wrecsam

## Tabl 3: Dadansoddiad o'r mân-ddaliadau yn ôl maint ar 31 Mawrth 2022

| Awdurdod Unedol | Nifer y Daliadau | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Â Thŷ ac Adeiladau | | | | Ffermydd Tir yn Unig | | | | Cyfanswm Daliadau |
| | 0-20 | 20-40 | Dros 40 | C'swm | 0-20 | 20-40 | Dros 40 | C'swm | |
| Abertawe | 0 | 0 | 0 | **0** | 42 | 0 | 0 | **42** | **42** |
| Blaenau Gwent | 0 | 0 | 0 | **0** | 126 | 1 | 0 | **127** | **127** |
| Bro Morgannwg | 2 | 0 | 0 | **2** | 4 | 0 | 0 | **4** | **6** |
| Caerdydd | 2 | 0 | 0 | **2** | 0 | 0 | 0 | **0** | **2** |
| Caerffili | 0 | 1 | 0 | **1** | 27 | 0 | 0 | **27** | **28** |
| Casnewydd | 1 | 2 | 0 | **3** | 2 | 1 | 1 | **4** | **7** |
| Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 0 | **0** | 35 | 3 | 1 | **39** | **39** |
| Ceredigion | 3 | 8 | 0 | **11** | 4 | 0 | 0 | **4** | **15** |
| Conwy | 6 | 3 | 2 | **11** | 0 | 0 | 0 | **0** | **11** |
| Gwynedd | 1 | 8 | 31 | **40** | 7 | 0 | 1 | **8** | **48** |
| Merthyr Tudful | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 | 0 | 0 | **0** | **0** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 | **0** | 1 | 0 | 0 | **1** | **1** |
| Powys | 40 | 71 | 29 | **140** | 31 | 1 | 1 | **33** | **173** |
| Rhondda Cynon Taf | 0 | 0 | 0 | **0** | 63 | 0 | 0 | **63** | **63** |
| Sir Benfro | 4 | 25 | 15 | **44** | 65 | 3 | 1 | **69** | **113** |
| Sir Ddinbych | 1 | 5 | 9 | **15** | 11 | 2 | 1 | **14** | **29** |
| Sir Fynwy | 4 | 11 | 9 | **24** | 35 | 6 | 0 | **41** | **65** |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 12 | 12 | **24** | 18 | 3 | 2 | **23** | **47** |
| Sir y Fflint | 0 | 13 | 2 | **15** | 5 | 1 | 1 | **7** | **22** |
| Tor-faen | 0 | 0 | 0 | **0** | 26 | 1 | 1 | **28** | **28** |
| Wrecsam | 3 | 5 | 1 | **9** | 2 | 2 | 0 | **4** | **13** |
| Ynys Môn | 25 | 38 | 15 | **78** | 10 | 2 | 0 | **12** | **90** |
| **CYFANSWM CYMRU** | **92** | **202** | **125** | **419** | **514** | **26** | **10** | **550** | **969** |

**Tabl 4: Dadansoddiad o'r mân-ddaliadau yn ôl tenantiaid a thenantiaethau ar 31 Mawrth 2022**

| Awdurdod Unedol | Nifer y tenantiaid | | | | Tenantiaeth | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Hectarau | | | | | | | |
| | 0-20 | 20-40 | Dros 40 | C'swm | FBT | AHA | Arall | C'swm |
| Abertawe | 42 | 0 | 0 | **42** | 42 | 0 | 0 | **42** |
| Blaenau Gwent | 126 | 1 | 0 | **127** | 0 | 0 | 127 | **127** |
| Bro Morgannwg | 6 | 0 | 0 | **6** | 0 | 2 | 4 | **6** |
| Caerdydd | 2 | 0 | 0 | **2** | 1 | 1 | 0 | **2** |
| Caerffili | 27 | 1 | 0 | **28** | 12 | 2 | 14 | **28** |
| Casnewydd | 3 | 3 | 1 | **7** | 4 | 3 | 0 | **7** |
| Castell-nedd Port Talbot | 26 | 3 | 1 | **30** | 3 | 2 | 25 | **30** |
| Ceredigion | 7 | 8 | 0 | **15** | 5 | 8 | 2 | **15** |
| Conwy | 6 | 3 | 2 | **11** | 5 | 5 | 1 | **11** |
| Gwynedd | 8 | 7 | 32 | **47** | 29 | 16 | 1 | **46** |
| Merthyr Tudful | 13 | 0 | 0 | **13** | 0 | 0 | 13 | **13** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 1 | 0 | 0 | **1** | 1 | 0 | 0 | **1** |
| Powys | 51 | 63 | 30 | **144** | 135 | 33 | 5 | **173** |
| Rhondda Cynon Taf | 63 | 0 | 0 | **63** | 1 | 0 | 62 | **63** |
| Sir Benfro | 69 | 28 | 16 | **113** | 93 | 20 | 0 | **113** |
| Sir Ddinbych | 12 | 7 | 10 | **29** | 24 | 4 | 1 | **29** |
| Sir Fynwy | 5 | 11 | 9 | **25** | 16 | 31 | 20 | **67** |
| Sir Gaerfyrddin | 18 | 15 | 14 | **47** | 38 | 9 | 0 | **47** |
| Sir y Fflint | 0 | 14 | 3 | **17** | 16 | 7 | 0 | **23** |
| Tor-faen | 26 | 1 | 1 | **28** | 1 | 0 | 28 | **29** |
| Wrecsam | 2 | 5 | 1 | **8** | 1 | 5 | 2 | **8** |
| Ynys Môn | 27 | 39 | 15 | **81** | 46 | 43 | 0 | **89** |
| **CYFANSWM CYMRU** | **540** | **209** | **135** | **884** | **473** | **191** | **305** | **969** |

**Tabl 5: Tenantiaethau a roddwyd gan awdurdodau mân-ddaliadau am y tro cyntaf a'r rhai a gafodd eu terfynu yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022**

| Awdurdod Unedol | Nifer a roddwyd | | Nifer wedi'u Terfynu |
|---|---|---|---|
| | Tenantiaid Newydd | Yn Denantiaid Eisoes | |
| Abertawe | 1 | 42 | 0 |
| Blaenau Gwent | 2 | 2 | 1 |
| Bro Morgannwg | 1 | 1 | 2 |
| Caerdydd | 0 | 0 | 0 |
| Caerffili | 0 | 28 | 0 |
| Casnewydd | 0 | 7 | 0 |
| Castell-nedd Port Talbot | 1 | 29 | 1 |
| Ceredigion | 0 | 0 | 0 |
| Conwy | 0 | 0 | 0 |
| Gwynedd | 1 | 0 | 0 |
| Merthyr Tudful ** | 1 | 12 | 0 |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 0 | 0 | 0 |
| Powys | 5 | 10 | 15 |
| Rhondda Cynon Taf | 1 | 62 | 3 |
| Sir Benfro | 0 | 15 | 0 |
| Sir Ddinbych | 0 | 0 | 1 |
| Sir Fynwy | 1 | 0 | 3 |
| Sir Gaerfyrddin | 0 | 0 | 0 |
| Sir y Fflint | 0 | 0 | 0 |
| Tor-faen | 0 | 0 | 0 |
| Wrecsam | 0 | 0 | 1 |
| Ynys Môn | 1 | 3 | 0 |
| **CYFANSWM CYMRU** | **15** | **211** | **27** |

** Merthyr Tudful - mae rhai tyddynnod yn wag dros dro oherwydd gwyriadau cyfleustodau ar welliant cynllun ffordd yr A465 ac nid yw'r rhenti hyn wedi'u cynnwys yn y data. Ar ôl ei gwblhau, bydd tenantiaid yn dychwelyd i'r tyddynnod hyn.

**Tabl 6: Cyfanswm cyfrif refeniw awdurdodau mân-ddaliadau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022**

| **Cyfrif Gweithredol** | |
|---|---|
| **Incwm (£)** | |
| Rhent o Ddaliadau | £3,621,821.38 |
| Rhenti Eraill | £270,801.87 |
| Incwm Arall | £397,740.71 |
| **CYFANSWM INCWM** | **£4,290,363.96** |
| **Gwariant (£)** | |
| Atgyweirio a Chynnal a Chadw | £1,101,908.50 |
| Rhenti, Ardrethi, Blwydd-daliadau, Ffïoedd Dŵr | £80,811.06 |
| Prisiadau Net ar Hawliau Tenantiaid | £70,412.80 |
| Rheoli'r Ystâd | £212,200.47 |
| Gwariant Arall | £119,807.35 |
| **CYFANSWM GWARIANT** | **£1,585,140.18** |
| **GWARGED Y CYFRIF GWEITHREDOL** | **£2,705,223.78** |

| **Cyfrif Anweithredol** | |
|---|---|
| **Incwm (£)** | |
| **CYFANSWM** | **£1,300.00** |
| **Gwariant (£)** | |
| Costau Cefnogi Canolog | £234,584.44 |
| Gwariant Arall | £76,510.00 |
| **CYFANSWM** | **£311,094.44** |
| **CYFRIF ANWEITHREDOL (DIFFYG)** | **-£309,794.44** |

| **Cyfrif Refeniw Net – Gwarged/(Diffyg)** | |
|---|---|
| Cyfrif Gweithredol – Gwarged | £2,705,223.78 |
| Cyfrif Anweithredol (Diffyg) | **-£309,794.44** |
| **Gwarged/(Diffyg) Net** | **£2,395,429.34** |
| Costau Cyfalaf | £851,863.65 |
| Gwarged/(Diffyg) Net gan gynnwys Cyfalaf | **£1,543,565.69** |